

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

Dydd Iau, 8 Gorffennaf 2021

## Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Rheoli Datblygu trwy We-Ddarlledu o Bell ar ddydd Mercher, 14 Gorffennaf 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Materion Personol
3. Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu
4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021 (Tudalennau 3 - 6)
5. Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor (Tudalennau 7 - 8)
6. Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu (Tudalennau 9 - 32)
7. Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig (Tudalennau 33 - 38)
8. Apeliadau (Tudalennau 39 - 54)
9. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Pwyllgor

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'L Edwards'.

Miss Lowri Edwards  
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu

**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd

**ddydd Mercher, 23 Mehefin 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Ceredig Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Paul Hinge, Catherine Hughes, Gwyn James, Maldwyn Lewis, Lyndon Lloyd MBE, Gareth Lloyd, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mrs Ffion Lloyd – Cyfreithiwr, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau.

(10.00am – 1:20pm)

## 1. Personol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd Paul Hinge am longyfarch Nerys Hywel ar gael ei phenodi'n gadeirydd benywaidd cyntaf Clwb Rygbi Aberystwyth yn ddiweddar.

Roedd hefyd am ddymuno'n dda i Steve Owen a fydd yn cerdded o Gaerdydd i Benrhiw-pâl i godi arian i Woody's Lodge, canolfan gymdeithasol i dywys cyn-filwyr at y cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i ailgysylltu â'u teuluoedd a'u cymunedau. Os oedd unrhyw un am gyfrannu, roedd tudalen Just Giving ar gael ar ei dudalen Facebook.

Bu i'r Cadeirydd longyfarch pawb a fu'n rhan o'r digwyddiad diweddar yng Nghlwb Pêl-droed Felin-fach i godi arian i Steffan Morgan, chwaraewr ifanc a oedd wedi cael diagnosis fod arno ganser anghyffredin. Cafwyd newyddion rhagorol yn ddiweddar fod Steffan wedi clywed bod y clefyd wedi cilio.

## 2. Ymddiheuriadau

Roedd y Cynghorydd Bryan Davies wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod.

## 3. Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu

Bu i'r Cynghorydd Ceredig Davies ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A201050.

## 4. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 09 Mehefin 2021

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Mehefin 2021 yn gywir.

## Materion yn codi

Dim.

## 5. Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor

## Tudalen 4

Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch y ceisiadau cynllunio a ganlyn a drafodwyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor ac yr oedd angen iddo eu hystyried ymhellach:-

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Juanita Humphris (Gwrthwynebydd) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A200528 Ffurio mynedfa newydd i gae amaethyddol, Tir yng Nghilgraig, Capel Dewi, Llandysul

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais hyd nes bod adroddiad geotechnegol a holl fanylion y cynigion i ddraenio dŵr wyneb wedi'u cyflwyno, gan ganiatáu bryd hynny i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio GYMERADWYO'R cais yn ddibynol ar amodau, gan gynnwys cynllun plannu yn sgil colli gwrych. Os na chaiff yr wybodaeth hon ei chyflwyno o fewn cyfnod derbyniol, caiff y cais ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor.

Roedd y penderfyniad i gymeradwyo'r cais hefyd yn ddibynol ar gymeradwyo cais cynllunio A210239 hefyd.

Roedd yr Aelodau'n tybio bod modd cymeradwyo'r cais os caiff mwy o wybodaeth ei chyflwyno a'i bod yn bodloni Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, a hynny am y rhesymau a ganlyn:-

- Roedd angen mynedfa newydd i'r cae yn wahanol i farn y swyddogion yn yr adroddiad
- Cafodd gwybodaeth ei chyflwyno i ddangos bod angen y fynedfa newydd
- Roeddent yn derbyn y byddai'r fynedfa'n cael effaith weledol, ond, at ei gilydd, byddai'r fynedfa arfaethedig yn fwy diogel na'r fynedfa bresennol ac roedd yr Aelodau'n tybio bod diogelwch yn gorbwyso unrhyw effaith weledol andwyol
- Nid oedd gan yr Awdurdod Priffyrdd Lleol unrhyw wrthwynebiad i'r fynedfa arfaethedig

---

### 6. Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol

Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Ms Juanita Humphris, Mrs S J Dilworth a Mrs R Thomas i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A210239 Cynnig i ffurfio trac mynediad amaethyddol, Tir yng Nghilgraig, Capel Dewi, Llandysul

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais hyd nes bod adroddiad geotechnegol a holl fanylion y cynigion i ddraenio dŵr wyneb wedi'u cyflwyno, gan ganiatáu bryd hynny i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio GYMERADWYO'R cais yn ddibynol ar amodau, gan gynnwys cynllun plannu yn sgil colli gwrych. Os na chaiff yr wybodaeth hon ei chyflwyno o fewn cyfnod derbyniol, caiff y cais ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor.

## Tudalen 5

- Roedd angen mynedfa newydd i'r cae yn wahanol i farn y swyddogion yn yr adroddiad
- Cafodd gwybodaeth ei chyflwyno i ddangos bod angen y fynedfa newydd
- Roeddent yn derbyn y byddai'r fynedfa'n cael effaith weledol, ond, at ei gilydd, byddai'r fynedfa arfaethedig yn fwy diogel na'r fynedfa bresennol ac roedd yr Aelodau'n tybio bod diogelwch yn gorbwysu unrhyw effaith weledol andwyol
- Nid oedd gan yr Awdurdod Priffyrdd Lleol unrhyw wrthwynebiad i'r fynedfa arfaethedig

---

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr a Mrs W ac A Davey (Ymgeiswyr) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A201050 Codi annedd, gan gynnwys gosod mynedfa i gerbydau a gwaith trin carthion, Tir wrth ymyl Awel y Mynydd, Pisgah, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais am fis er mwyn i'r ymgeisydd drafod â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a fyddai'n ystyried newid y cais yn gais i godi annedd fforddiadwy neu annedd TAN 6, gan ganiatáu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio GYMERADWYO cais diwygiedig boddhaol yn ddibynnol ar amodau a chytundeb cyfreithiol Adran 106. Os na cheir cytundeb ar y cynnig, caiff y cais ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor.

---

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Rhys ap Dylan (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A201064 Cam 3 – Codi saith annedd, Cae John, Cross Inn, Llannon

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau a chytundeb Adran 106, gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn trafod â'r ymgeisydd gynllun datblygu graddol er mwyn codi'r tai fforddiadwy cyn y tai ar gyfer y farchnad agored o ddewis.

Roedd yr Aelodau'n tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- Roeddent yn derbyn y gyfradd dwf a nodwyd yn y lleoliad hwn, ond oherwydd diffyg datblygu mewn ardaloedd eraill fel Aberaeron, roeddent yn croesawu'r cais hwn
  - Nid oedd modd rhoi caniatâd cynllunio mewn ardaloedd eraill ar hyn o bryd oherwydd problemau â ffosffadau, felly roedd angen adeiladu yn y lleoliad hwn
  - Roeddent yn croesawu'r tai fforddiadwy a fyddai'n cael eu darparu drwy'r datblygiad hwn
-

## Tudalen 6

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Andrew Docherty (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A210023 Caban llety gwyliau hunanarlwyo newydd yng ngardd y cleient, Tynlon, Llanilar, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais i ganiatáu i'r ymgeisydd gyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, ac yna i'r cais gael ei atgyfeirio at Gyfoeth Naturiol Cymru i'w ystyried, gan ganiatáu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio GYMERADWYO'R cais os yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n tybio bod yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn dderbyniol ac yn foddhaol.

Roedd yr Aelodau'n tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- Mewn egwyddor, roedd y cais yn unol â'r polisi, ond roedd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd cyn ei gymeradwyo
- Mae'n cefnogi economi'r sir mewn ffordd wahanol
- Mae'r cais hwn yn cydymffurfio â pholisi S04
- Mae'r polisi cenedlaethol am i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol gefnogi cefn gwlad

### 7. Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-

**PENDERFYNWYD** nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

Dywedodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd fod nifer o drigolion ei ward wedi gofyn am eglurhad ynghylch y ceisiadau ar y rhestr hon a gafodd eu cymeradwyo mewn cefn gwlad agored. Yn ei ymateb, dywedodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio fod pob cais a gymeradwywyd ar y rhestr hon wedi'i gymeradwyo drwy awdurdod dirprwyedig a chan ddilyn y canllawiau. Os oedd gan unrhyw drigolion unrhyw gwestiynau, dywedodd y dylent ysgrifennu'n uniongyrchol ato.

### 8. Apeliadau cynllunio

Dim.

Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021

Cadeirydd:- \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

# 1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
---	--	---	--------------------------	-------------------	---------------------	----------------------------------

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



## 2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A210230	08-03-2021	Miss M Gee	Change of use from C3 (dwelling) to C4 House in Multiple Occupation (HMO).	8 Gogerddan Cottages, Penglais Road, Aberystwyth, SY23 2EX	Approve Subject to Conditions
2	A210283	18-03-2021	(Cartrefi Redwood Homes)	Erection of 2 dwellings.	Plot 16 & 17 Clos y Gwyddil, Y Ferwig, Cardigan, SA43 1PS	Refuse

## 2.1. A210230



# Tudalen 11

<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A210230
<b>Derbyniwyd / Received</b>	08-03-2021
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Change of use from C3 (dwelling) to C4 House in Multiple Occupation (HMO).
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	8 Gogerddan Cottages, Penglais Road, Aberystwyth, SY23 2EX
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Miss M Gee, Blue Cedars Ivetsey Bank Road, Stafford, ST19 9AE
<b>Asiant / Agent</b>	,

## Y SAFLE A'I HANES PERTHNASOL

Tŷ teras deulawr traddodiadol yw safle'r cais, a adeiladwyd yn ôl pob golwg yn yr 1800au ac sy'n sefyll o fewn Ardal Gadwraeth Canol Tref Aberystwyth. Mae campws prifysgol Penglais 0.45 cilometr i'r dwyrain a chanol y dref oddeutu 0.5 cilometr i'r gorllewin o'r safle. Saif y safle mewn ardal breswyl yn bennaf, â'i flaen ar Ffordd Penglais.

Ni nodwyd bod unrhyw hanes perthnasol o ran cynllunio.

## MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais datblygu dan sylw yn gofyn am ganiatâd i newid defnydd 8 Bythynnod Gogerddan, Ffordd Penglais, i fod yn Dŷ Amlfeddiannaeth (dosbarth defnydd C4) ac iddi dair ystafell wely.

Mae'r manylion a gyflwynwyd yn dangos y bydd gan yr annedd a fwriedir un ystafell wely ar y llawr gwaelod ynghyd ag ystafell fyw/ystafell fwyta, cegin, ystafell iwtiliti a thoiled. Bydd gan y llawr cyntaf ddwy ystafell wely ac ystafell ymolchi. Ni chynigir gwneud newidiadau i'r tu allan i'r eiddo.

## POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

### Polisïau Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (agraffiad 11, Chwefror 2021)

### Polisïau Cynllunio Lleol Perthnasol

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn:

LU07 Isrannu'r Anheddau Presennol

DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel

DM07 Ardaloedd Cadwraeth

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

### DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn o fewn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

### DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- gwaredu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig pan fydd yr anghenion hyn yn wahanol i anghenion pobl eraill;

## Tudalen 12

• annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhodddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

### **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth roi'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

### **YMATEBION YN SGIL YMGYNGHORI**

Cyngor Tref Aberystwyth – Mae'r Cyngor yn GWRTHWYNEBU'r cais cynllunio ôl-weithredol hwn yn GRYF ac mae'n gwrthwynebu datblygu tai amlfeddiannaeth yn gyffredinol. Mae'r cais hwn yn cynrychioli haen o lety lle nad oes llawer o le i fyw a dim lle storio sbwriel na beiciau. Mae'n mynd yn groes i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae hefyd yn cynrychioli colli cartref teulu fforddiadwy.

Cymdeithas Ddinesig Aberystwyth – Ni chafwyd sylw

Priffyrdd – Dim sylwadau i'w gwneud

Awdurdod Cefnffyrdd – Dim gwrthwynebiad – hysbyswyd yn gyffredinol

Draenio Tir – Dim gwrthwynebiad

Ecoleg – Ni chafwyd sylw

Cyfoeth Naturiol Cymru – Gwrthwynebu

Ni ddaeth dim sylw i law oddi wrth drydydd partiön parthed y cais.

### **CASGLIAD**

Dywed Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004: "Os rhoddir ystyriaeth i'r cynllun datblygu er mwyn gwneud penderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, bydd yn rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall."

### **Egwyddor y Datblygiad**

Mae Polisi LU07 o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007-2022) yn ymwneud ag isrannu tai presennol ac mae'n nodi'r amgylchiadau lle gellir caniatáu troi unedau mawrion yn fflatiau. Mae cafeat i'r polisi sy'n nodi na chaniateir troi unedau preswyl yn dai amlfeddiannaeth sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi bod yn gyson wrth ystyried cynigion ar gyfer unedau mawrion ac wedi gwrthod ceisiadau i'w troi'n dai amlfeddiannaeth, ond mae angen dull gweithredu gwahanol wrth ystyried unedau llai.

Ar adeg mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, roedd Tai Amlfeddiannaeth ond yn cyfeirio at dai oedd yn cynnwys saith neu fwy o bobl yn byw'n annibynnol ar ei gilydd. Roedd y diwygiad a wnaed yn 2016 i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd wedi cyflwyno Dosbarth C4 newydd lle byddai angen caniatâd cynllunio er mwyn i dri neu fwy o bobl - nad ydynt yn byw fel aelwyd sengl - feddiannu annedd.

Yn yr achos hwn, byddai'r datblygiad yn mynd yn groes i bolisi LU07 am mai'r cynnig yw trosi annedd yn dŷ amlfeddiannaeth. Fodd bynnag, mae'r testun esboniadol sy'n cyd-fynd â pholisi LU17 yn nodi'n glir bod y polisi'n ymwneud â thai trefol mawr o dri neu bedwar llawr nad ydynt yn briodol, o achos eu maint, i'w defnyddio mwyach fel un aelwyd unigol. Mae'r eiddo dan sylw yma yn llawer llai o ran maint a bydd yn darparu llety ar ffurf tair ystafell wely. Ni fwriadwyd erioed i Bolisi LU17 gyfyngu ar dai amlfeddiannaeth o'r maint hwn. Mae'r newid yn y ddeddfwriaeth yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer gwyro oddi wrth y cynllun datblygu yn yr achos hwn.

Cadarnhawyd y dull hwn mewn dyfarniad apêl diweddar gan Arolygydd Cynllunio a benodwyd gan Weinidogion Cymru. Canfu yntau fod polisi LU07 wedi dyddio erbyn hyn yn sgil y newidiadau yn y Gorchymyn Dosbarth Defnydd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

# Tudalen 13

Felly, derbynnir yr egwyddor o droi tai llai o faint yn dai amlfeddiannaeth, ar yr amod bod modd bodloni pob ystyriaeth gynllunio arall.

## Amwynder Preswyl

Mae maen prawf 7 o Bolisi DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel yn ceisio sicrhau na fyddai datblygiadau arfaethedig yn peri niwed arwyddocaol o safbwynt preifatrwydd, sŵn a golygon. Nid ystyrir bod darparu Tŷ Amlfeddiannaeth ac iddi dair ystafell wely yn peri niwed o ran amwynder sy'n sylweddol wahanol i'r hyn a berir gan dŷ annedd C3. Bydd y drefn o storio a chasglu sbwriel yn parhau fel y mae ar hyn o bryd. Yn ogystal, drwy gynnig lle gwahanol i annedd ar gyfer teulu sengl, byddai'r cynnig yn cyd-fynd â maen prawf 6 o DM06 sef bod gofyn i ddatblygiad gyfrannu at greu cymunedau cymysg a chynhwysol yn gymdeithasol.

## Ardal Gadwraeth

Ni chynigir gwneud newidiadau o ran ymddangosiad allanol yr eiddo, felly ystyrir bod y cais yn cydymffurfio â pholisi DM07 y Cynllun Datblygu Lleol sy'n ceisio amddiffyn a hybu cymeriad yr ardal a'i diddordeb pensaernïol arbennig.

## Materion Eraill

### Llifogydd

Daeth sylwadau i law'r Awdurdod Cynllunio Lleol oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru, dyddiedig 21 Ebrill 2021, sy'n nodi bod y safle yn gyfan gwbl o fewn parth llifogydd C2 o'r Map Cyngor Datblygu ac felly fod angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd i ddangos bod modd rheoli'r perygl o lifogydd at lefel dderbyniol. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn nad yw'r defnydd presennol a wneir o'r eiddo fel tŷ annedd C3 yn fwy agored i lifogydd na thŷ amlfeddiannaeth. Yn ôl pob tebyg, byddai preswlydd yr ystafell wely i lawr llawr yn cael lloches mewn ystafell lan llofft pe bai llifogydd.

Felly, ystyrir y byddai'n rhy feichus gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig hwn y tro hwn.

### Priffyrdd

Nid oes gan yr Awdurdod Priffyrdd Lleol ddim sylwadau i'w gwneud ar y cais. Credir bod lleoliad cynaliadwy safle'r cais yng nghanol y dref yn golygu na fydd angen i ddeiliaid yr eiddo ddefnyddio car preifat i deithio i ganol y dref. Ni chredir y byddai maint y tŷ amlfeddiannaeth arfaethedig yn arwain at fwy o alw am lefydd parcio na'r hyn a gynigir yn ei ddefnydd presennol fel annedd C3.

## ARGYMHELLIAD:

Cymeradwyo'r cais, yn ddibynnol ar amodau.

## Pwer Dirprwyo:

Mae'r aelod lleol, y Cyng. Alun Williams, wedi gofyn bod y cais yn cael ei benderfynu gan aelodau o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am y rhesymau canlynol:

- Byddai cymeradwyo'r cais yn arwain at ymadawiad o'r cynllun datblygu sy'n ceisio atal datblygiad HMO

# Tudalen 14

<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A210230
<b>Derbyniwyd / Received</b>	08-03-2021
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Change of use from C3 (dwelling) to C4 House in Multiple Occupation (HMO).
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	8 Gogerddan Cottages, Penglais Road, Aberystwyth, SY23 2EX
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Miss M Gee, Blue Cedars Ivetsey Bank Road, Stafford, ST19 9AE
<b>Asiant / Agent</b>	,

## THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site constitutes a traditional 2 storey terraced dwelling which appears to have been constructed in the 1800s and sits within the Aberystwyth Town Centre Conservation Area. Penglais University Campus is 0.45km to the east and the town centre approximately 0.5km to the west of the site. The site is located in a predominantly residential area fronting Penglais Road.

No planning history is identified.

## DETAILS OF DEVELOPMENT

The development proposed is the change of use of 8 Gogerddan Cottages, Penglais Road, to a 3-bedroom House of Multiple Occupation HMO (Class C4 use).

The submitted details show the dwelling is proposed to have 1 bedroom to the ground floor with a living/dining room, kitchen, utility room and WC. The first floor would have two bedrooms and a bathroom. There are no external changes proposed to the property.

## RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

### Relevant National Planning Policy

- Future Wales: The National Plan 2040
- Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)

### Relevant Local Planning Policy

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

LU07 Subdivision of Existing Dwellings

DM06 High Quality Design and Placemaking

DM07 Conservation Areas

## OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

### CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

### EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

# Tudalen 15

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

## **WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

## **CONSULTATION RESPONSES**

Cyngor Cymuned Tref Aberystwyth Town Council – Council **STRONGLY OBJECTS** to this retrospective planning application and opposes the development of HMOs in general. This application represents a cramming of accommodation where there is limited living space and no refuse or bike storage. It contravenes the Wellbeing of Future Generations Act and also represents the loss of an affordable family home.

Aberystwyth Civic Society – Did not comment

Highways – No Observations

Trunk Road Authority – No objection – general informatives

Land Drainage – No Objection

Ecology – Did not comment

Natural Resources Wales - Object

No third party representations have been received in respect of this application

## **CONCLUSION**

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

### **Principle of development**

Policy LU07 of the Ceredigion Local Development Plan (2007-2022) (LDP) relates to the subdivision of existing dwellings and sets out the circumstances when the conversion of large units to flats will be permitted. There is a caveat to the policy to state that conversion of residential units to HMOs that require planning permission will not be permitted. The LPAs position has until recently been that all HMOs are prohibited by the policy.

However a recent appeal decision by a Welsh Minister appointed Planning Inspector found policy LU07 to be out of date following changes to the Use Class Order since the adoption of the LDP. At the time the LDP was adopted, HMOs only related to housing with seven or more people living independently from one another. The amendment to the Use Classes Order in 2016 introduced a new Class C4 whereby occupation of a dwelling by three or more people not living as a single household would require planning permission.

In this case, the development would conflict with policy LU07 in that the proposal is for the conversion of a dwelling to a HMOs, however, the weight attached to that conflict is affected by the change in legislation which has occurred since the policy was adopted.

In addition the explanatory text to the policy makes it clear that the policy relates to large, three or four storey town houses which are no longer appropriate for single household occupancy due to their large size. The property under consideration here is much smaller in size and will provide 3 bedrooms of accommodation.

### **Residential Amenity**

Criterion 7 of Policy DM06 High Quality Design and Placemaking seeks to ensure development proposals do not give rise to significant harm in relation to privacy, noise and outlook. The provision of a 3 bedroom HMO is not considered to give rise to amenity harm materially different to that of a C2 dwelling house. Refuse storage and collection are to remain as existing.

In addition by offering an alternative to single family occupied dwelling, the proposal would accord with criterion 6 of DM06

# Tudalen 16

which requires that development should contribute to the creation of mixed and socially inclusive communities.

## **Conservation Area**

No external changes are proposed in regard to the external appearance of the property, therefore the proposal is considered to conform with policy DM07 of the LDP which seeks to preserve and enhance the character and special architectural interest of the area.

## **Other Matters**

### **Flooding**

The LPA are in receipt of representations made by NRW dated 2<sup>nd</sup> of April 2021 which state that as the site is entirely within flood zone C2 of the Development advice map, a Flood Consequence Assessment (FCA) is required to demonstrate the risk of flooding can be managed to an acceptable level. The LPA consider the property's current use as a C3 dwelling house to be no more vulnerable to flooding than a HMO. The resident of the downstairs bedroom would in all probability take refuge in an upstairs room in a flood event.

It is therefore considered overly onerous to require the applicant to submit an FCA in respect of this development proposal on this occasion.

### **RECOMMENDATION:**

Approve the application STC

### **Power of Delegation**

The local member, Cllr. Alun Williams, has requested for the application to be determined by members of the Development Control Committee, for the following reasons:

- Approval of the application would result in a departure from the development plan which seeks to prevent the development of an HMO



2.2. A210283



# Tudalen 18

<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A210283
<b>Derbyniwyd / Received</b>	18-03-2021
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Codi 2 annedd.
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Plot 16 a 17 Clos y Gwyddil, Y Ferwig, Aberteifi, SA43 1PS
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Cynllunio Llawn
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	(Cartrefi Redwood Homes), Maesyrhaf, Pencader, Caerfyrddin, SA39 9HL
<b>Asiant / Agent</b>	Mr Rhys ap Dylan (Morgan & Davies), Morgan & Davies 4 Stryd y Farchnad, Aberaeron, SA46 0AS

## Y SAFLE A HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae'r cais yn cyfeirio at barsel o dir ar ochr orllewinol mynedfa'r ystad breswyl a adwaenir fel Clos y Gwyddil, sydd wedi'i lleoli ar ymyl pentref Y Ferwig. Mae'r ystad yn cynnwys 10 o anheddau marchnad agored a 5 uned fforddiadwy.

Mae'r anheddau ar ochr ddwyreiniol yr ystad (plotiau 7-15) wedi'u hadeiladu o fewn y 11 mlynedd diwethaf yn fras, a chafodd y rhai diweddaraf – plotiau 13, 14 a 15 – ganiatâd cynllunio amlinellol yn 2011 (A100956) gyda'r materion a gadwyd yn ôl yn cael eu cymeradwyo ar gyfer plot 13 yn Hydref 2013. Amrywiwyd y caniatâd amlinellol wedi hynny dan adran 73 yn 2015 i ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cyflwyno mwy o faterion a gedwir yn ôl (A140999). Cymeradwywyd y materion a gadwyd yn ôl yn nes ymlaen yn 2015 (A150233 (plot 14) ac A150271 (plot 15)).

Mae safle'r cais (y cyfeirir ato fel plotiau 16 ac 17) yn cynrychioli'r ddau blot olaf i gael eu datblygu ar yr ystad a chyflwynwyd cais amlinellol i godi dwy annedd (gyda rhai materion wedi'u cadw'n ôl) yn 2013 (A130391). Cafodd y cais hwn ei wrthod gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2013 ar sail y ffaith nad oedd unrhyw gyfiawnhad dros ganiatáu datblygu preswyl pellach yn Y Ferwig, a phetai'n cael ei ganiatáu mi fyddai'n tanseilio'r gallu i gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), yn benodol polisïau S01, S02 ac S04. Ar yr adeg honno roedd y CDLI newydd ei fabwysiadu, ac ystyriwyd bod modd cwrdd â'r angen am dai yn sgil y 92 caniatâd a roddwyd eisoes o fewn Aneddiadau Cyswllt a a Lleoliadau Eraill Grŵp Aneddiadau Aberteifi. Cafodd y cais ei wrthod wedi hynny mewn apêl ar 02 Mai 2014 (apêl cyfeirnod APP/D6820/A/13/2210628). Roedd yr Arolygwr o'r farn bod y datblygiad yn mynd yn groes i Bolisïau S04:2b, S04:2c ac S04:2d y CDLI, a daeth i'r casgliad nad oedd cyfiawnhad digonol dros ryddhau mwy o dir i adeiladu tai o fewn yr anheddiad.

## MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio llawn i godi dwy annedd sengl. Mae'r ddwy annedd o faint a dyluniad tebyg, sef annedd math dormer, gyda thalcen deulawr yn ymestyn i'r ochr a garej unllawr ynghlwm. Mae'r dyluniad ychydig yn wahanol yn y cefn, gyda'r annedd agosaf at y ffordd (plot 17) â mwy o wydr yn y talcen deulawr a balconi ar y llawr cyntaf.

O ran maint, bydd annedd plot 16 yn mesur 11.8m x 10m, gyda'r garej sydd ynghlwm yn mesur 3.9m x 6.6m. Bydd uchder crib yr annedd yn 7m, a bydd uchder crib y talcen deulawr yn 7.4m, gydag uchder crib y garej yn 5.5m. Bydd yr annedd yn darparu 4 ystafell wely.

Bydd annedd plot 17 yn mesur 11.65m x 9.9m, a bydd y garej sydd ynghlwm yn mesur 3.9m x 6.6m. Bydd uchder crib yr annedd yn 6.7m, a bydd uchder crib y talcen deulawr yn 7.1m gydag uchder crib y garej yn 5.5m. Bydd yr annedd yn darparu 4 ystafell wely, ac mae wedi'i dylunio fel bod y brif ardal fyw ar y llawr cyntaf a'r ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod.

Bydd gan yr anheddau arfaethedig do llechi, waliau wedi'u rendro'n llyfn a'u paentio, gyda phlinth brics, a drysau a ffenestri uPVC.

## POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

### Polisïau Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (agraffiad 11, Chwefror 2021)
- TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
- TAN12 Dyluniad (2016)
- TAN 18 Trafndiaeth

### Polisïau Cynllunio Lleol Perthnasol

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

# Tudalen 19

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n Ymwneud â Phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

## Canllawiau Cynllunio Atodol Perthnasol

Mae'r dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol yn berthnasol a dylid rhoi ystyriaeth iddynt:

- CCA Safonau Parcio CSC
- CCA Asesiad Trafnidaeth
- CCA Yr Amgylchedd Adeiledig
- CCA Cadwraeth Natur
- CCA Tai Fforddiadwy a Thafleuni Cymorth

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

### DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymarfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol ymarfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i wneud popeth sy'n rhesymol bosib i'w atal. Mae'r ddyletswydd honno wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn lefel y trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

### DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebwr gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol o ran pobl sydd â nodwedd warchoddedig, nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol arnynt, o'i gymharu ag unrhyw un arall.

### DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliaid, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain

## YMATEBION YMGYNGHORI

- **Cyngor Cymuned Y Ferwig** - Ni chafwyd ymateb
- **Priffyrdd** – Dim gwrthwynebiad, argymhell amodau
- **Draenio Tir** - Dim gwrthwynebiad, angen cymeradwyaeth SDCau

# Tudalen 20

- **Ecoleg** – Ni chafwyd ymateb
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** – Dim sylwadau
- **Dwr Cymru Welsh Water** – Dim gwrthwynebiad, argymhell amodau a nodyn cyngor

Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan drydydd partiön:

- Derbyniwyd sylwadau gan drydydd parti (ni roddwyd cyfeiriad) yn dweud, er nad ydyn nhw'n gwrthwynebu'r datblygiad, eu bod yn teimlo bod y plot yn rhy fach ar gyfer dau dŷ mawr, a fyddai wedi'u gwasgu mewn, gan gysgodi'r byngalos dormer presennol gerllaw'r plot ar yr ochr honno o'r ffordd, gan effeithio hefyd ar y tai gyferbyn. Mi fyddai'n fwy priodol o ran y datblygiad i barhau gyda byngalos dormer o faint a dyluniad tebyg. Mynegwyd pryder hefyd y bydd dwy annedd fawr ychwanegol yn rhoi straen sylweddol ar y pwysedd dŵr, sydd eisoes yn isel.
- Derbyniwyd sylwadau gan berchennog/deiliad rhif 1 Clos y Gwyddil, yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig oherwydd ei effaith andwyol ar ei olygfa.
- Derbyniwyd sylwadau gan drydydd parti (ni roddwyd cyfeiriad) yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ar sail y ffaith nad yw'r anheddau'n gymesur â maint y plotiau, a byddent yn rhy fawr o'u cymharu â'r anheddau eraill (byngalos dormer) sydd eisoes wedi'u hadeiladu ar yr un ochr o'r ffordd. Mynegwyd pryder, yn sgil eu maint, y byddent yn cysgodi'r anheddau presennol, ac yn cuddio golygfeydd cefn gwlad. Byddai'r annedd gyferbyn hefyd yn cael ei heffeithio yn sgil colli golygfeydd. Pryder hefyd bod y pwysedd dŵr eisoes yn isel a byddai'r anheddau'n golygu bod mwy o alw ar y cyflenwad. Hefyd, mae annedd plot 17 yn wynebu i ffordd o'r ystad, ac nid yw'n cydweddu'n dda â gweddill y tai, sy'n wynebu ei gilydd.

## CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: *"If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise"*.

## Egwyddor Datblygu

Diffinnir Y Ferwig fel Anheddiad Cyswllt sy'n ffurfio rhan o Grŵp Aneddiadau Aberteifi o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Nid yw'r CDLI yn pennu ffiniau anheddiad ar gyfer Aneddiadau Cyswllt ond yn hytrach yn gofyn bod unrhyw ddatblygu'n cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n gwella cydlynid ffisegol/gweledol yr adeiladau sy'n rhan o'r anheddiad. I'r perwyl hwnnw, mae'r polisi'n gofyn bod yn rhaid i ddatblygiad, er mwyn bod yn dderbyniol, fod wedi'i leoli un ai o fewn neu gerllaw ardal adeiledig benodedig yr Anheddiad Cyswllt. Mae'r safle hwn wedi'i leoli ger mynedfa'r ystad breswyl bresennol ac felly ystyrir ei fod o fewn ardal adeiledig benodedig Anheddiad Cyswllt Y Ferwig.

Mae Polisi S01 y CDLI yn cyfeirio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau tai i Ganolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig, am mai'r rhain yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf. Mae Polisi S04 y CDLI yn nodi bod angen rhywfaint o ddatblygu mewn lleoliadau ar wahân i Ganolfannau Gwasanaeth i gwrdd ag anghenion y cymunedau presennol, ond am eu bod yn lleoliadau llai cynaliadwy, ni chaniateir unrhyw ddatblygiad oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf a osodwyd yn y polisi. Yn achos datblygiad tai, rhaid iddo fodloni'r maen prawf canlynol -

- 2(b) – sy'n gofyn nad yw'r datblygu yn ei gyfanrwydd o fewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill yn mynd hwnt i'w ddarpariaeth.

Mae'r CDLI yn caniatáu darparu cyfanswm o 564 o anheddau o fewn Grŵp Aneddiadau Aberteifi. O'r rhain, mae 420 o anheddau i'w darparu o fewn y Ganolfan Wasanaethau, a 144 o anheddau i'w darparu o fewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill. Mae'r ffigurau tai diweddaraf, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Mawrth 2021) yn dangos bod 86 o dai wedi'u cwblhau o fewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill (01-04-2007-31-03-2020), 49 caniatâd ar y gweill ar 31-03-2021, 2 annedd wedi'u colli, gan olygu bod y cyfanswm ymrwymadau yn 133, gyda gofyniad dros ben am 11 o anheddau pellach.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â maen prawf 2(b) am fod yna ddarpariaeth dros ben ar gyfer 11 o anheddau pellach, i'w darparu o fewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill Grŵp Aneddiadau Aberteifi.

- 2(c) – sy'n gofyn bod y datblygu'n digwydd ar gyfradd nad yw'n uwch na'r gyfradd ddatblygu gymesur yn y Ganolfan Wasanaethau briodol.

Mae'r ffigurau tai yn dangos bod 273 o ddatblygiadau wedi'u cwblhau o fewn Canolfan Wasanaethau Aberteifi (01/04/07-31/03/2020), 65 caniatâd ar y gweill (31/03/2021) ac 14 o anheddau wedi'u colli, gan olygu cyfanswm ymrwymadau o 324 o anheddau. O fewn yr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill, mae 86 datblygiad wedi'u cwblhau (01/04/2007-31/03/2020), 49 caniatâd ar y gweill (31/03/2021), a 2 annedd wedi'u colli, gan arwain at ymrwymiad o 133 o anheddau. Mae hyn yn rhoi cyfradd o 71% : 29%. Mae hyn yn dangos bod datblygiadau o fewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi'u cyflwyno ar gyfradd sy'n uwch na'r gyfradd ddatblygu gymesur o fewn Canolfan Wasanaethau Aberteifi; fodd bynnag cydnabyddir nad yw ond fymryn yn uwch.

# Tudalen 21

Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â maen prawf 2(c).

- 2(d) – sy'n gofyn nad yw'r datblygu o fewn yr Aneddiadau Cyswllt yn gronno uwch na 12% o'r lefel dai oedd yn bresennol yn 2007.

Mae'r CDLI yn caniatáu darparu 7 annedd o fewn Anheddiad Cyswllt Y Ferwig yn ystod oes y CDLI, am fod hyn yn cynrychioli cynnydd o 12% o'r stoc dai yn 2007. Mae'r ffigurau tai yn dangos bod yna ganiatâd ar y gweill am 5 annedd ar 31-03-2021 a bod 14 o anheddau wedi'u cwblhau ers Ebrill 2020, sy'n golygu cyfanswm ymrwymiad o 19 o anheddau. Mae hyn yn gadael gofyniad dros ben o -12 annedd o fewn Y Ferwig. Mae'r lefel datblygu tai o fewn Y Ferwig eisoes wedi mynd tu hwnt i'w ddarpariaeth felly. Hefyd, yn seiliedig ar y cyfnog treigl pum mlynedd rhwng Mawrth 2015 a Mawrth 2021, mae dwy annedd yn ormod wedi'u datblygu yn Y Ferwig.

Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â maen prawf 2(d).

Mae'r datblygiad arfaethedig felly'n mynd yn groes i Bolisi S04, meini prawf 2(c) a (d) y CDLI.

Nod Polisi DM01 yw rheoli effaith unrhyw ddatblygu ar gymunedau a'r Gymraeg. Mae hyn yn gofyn bod unrhyw ddatblygu nad yw'n unol â pholisi S04 yn cyflwyno Asesiad o Effaith Gymunedol ac Ieithyddol. Ni chyflwynwyd asesiad o'r fath ac am fod y datblygiad yn mynd yn groes i S04, ni ellir asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar y gymuned a'r iaith Gymraeg.

Gofynnwyd i'r ymgeisydd a fyddai'n fodlon ystyried darparu dau dŷ fforddiadwy ar y plot, yn hytrach na dau dŷ marchnad agored, oherwydd byddai hynny'n cydymffurfio'n well â'r polisi; fodd bynnag, mewn ymateb, dywedwyd nad oedd hynny'n opsiwn roedd yn fodlon ei ystyried a bod yr ystad eisoes yn darparu tai fforddiadwy.

## Tai Fforddiadwy

Nod Polisi S05 y CDLI yw sicrhau cyfraniad tuag at dai fforddiadwy fel rhan o bob datblygiad tai. Am y byddai'r cynnig yn cyflenwi gofyniad tai fforddiadwy nad yw'n uned gyfan, byddai gofyn cael swm cymudol ar 'werth cyfatebol' o 10% o Werth Marchnad Agored y datblygiad fel mae wedi'i brisio ar adeg y cais. Mae asiant yr ymgeisydd wedi cadarnhau bod yr ymgeisydd yn fodlon ymrwymo i gytundeb adran 106 i ddarparu'r swm cymudol o 10%.

## Maint, Dyluniad ac Effaith Gweledol

Mae'r ystad bresennol yn cynnwys cymysgedd o anheddau, gan gynnwys anheddau sengl deulawr, byngalos, grŵp o anheddau deulawr tri theras, anheddau deulawr unto, a byngalos dormer sengl. Mae'r anheddau arfaethedig o faint cymharol fawr, yn arbennig mewn cymhariaeth â'r byngalos dormer llai o faint i'r de; fodd bynnag, ni ystyrir eu bod yn or-fawr mewn cymhariaeth ag eiddo arall ar yr ystad – yn enwedig y ddau eiddo gyferbyn. Yn nhermau maint y plot, bydd y cynnig yn darparu parcio digonol ac ardal droi yn y tu blaen, a garej o faint rhesymol yn y cefn. O ganlyniad, ni ystyrir bod maint yr anheddau'n or-fawr nac wedi'u gwasgu mewn i'r plot. Ystyrir hefyd bod dyluniad, golwg, a deunyddiau'r anheddau'n cydfynd â'r ystad bresennol.

Roedd un gwrthwynebiad a godwyd gan drydydd parti'n cyfeirio at ogwydd yr annedd ym mhlot 17 gan nodi ei bod yn wynebu i ffwrd o'r ystad, sy'n wahanol i'r anheddau eraill ar yr ystad. Mae'r annedd arfaethedig ym mhlot 17 wedi'i gosod ar fymryn o ongl, ond nid yw'n fawr ddim ac mae'r annedd yn wynebu ffordd yr ystad.

Ystyrir bod maint a dyluniad yr anheddau arfaethedig yn dderbyniol, ac ni fyddent yn cael unrhyw effaith gweledol andwyol ar yr ardal gyfagos, ac maent yn cydymffurfio felly â pholisïau DM06 a DM17 y CDLI.

## Tirweddu

Bydd gan y datblygiad arfaethedig ardaloedd o erddi a lawntiau, gyda thirweddu meddal ar hyd y ffiniau. Ni ddarparwyd unrhyw fanylion am y tirweddu meddal fel rhan o'r cais, ond gellir gosod hynny fel amod os rhoir caniatâd cynllunio. Ystyrir felly bod y tirweddu arfaethedig yn dderbyniol yn ôl polisi DM10 y CDLI.

## Amwynder Preswyl

Bydd yr anheddau arfaethedig wedi'u gosod yn ôl o fewn y plot a bydd ganddynt linell adeiladu debyg i'r eiddo presennol i'r de ohonynt. O ystyried y modd maent wedi'u gosod a'r pellter gwahanu, ni fydd yr anheddau arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar amwynder yr anheddau gyferbyn. Mae'r gwrthwynebiad a ddaeth o du'r eiddo gyferbyn (rhif 1) yn honni y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar eu golygfa. Bydd yr anheddau arfaethedig wedi'u gosod ar yr ochr arall i ffordd yr ystad a bydd ganddynt berthynas debyg i weddill yr ystad. Ni ystyrir felly bod y datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar olygfa'r eiddo gyferbyn.

Yn nhermau'r eiddo i'r de, bydd yr anheddau arfaethedig wedi'u gosod i'r gogledd o'r eiddo hyn, ac felly ni fyddant yn cael unrhyw effaith andwyol yn nhermau cysgodi. Bydd eiddo rhif 14, a'r rhai i'r de ohono, yn ddigon pell i ffwrd o'r datblygiad arfaethedig, ac felly ni fydd unrhyw effaith andwyol ar eu hamwynder.

## Tudalen 22

Yr eiddo agosaf yw rhif 15, sef byngalo dormer sengl. Bydd yr eiddo ym mhlot 16 wedi'i leoli'n agos iawn at y ffin â rhif 15; fodd bynnag, garej unllawr fydd ar yr ochr hon, a bydd y garej yn gorwedd ar yr un llinell, mwy neu lai, â'r byngalo. Does dim ffenestri ar y rhan hon o'r eiddo presennol, dim ond drws ar y llawr gwaelod. Mi fyddai'r rhan deulawr mwy o faint o'r annedd wedi'i osod i ffwrdd o'r byngalo hwn. Felly ni ystyrir bod yr anedd arfaethedig yn weledol ormesol, ac ni fydd chwaith yn golygu bod y byngalo cyfagos hwn yn colli golygfa. Yn nhermau edrych drosodd, does dim un ffenestr yn edrych dros un arall. Mi fydd gan yr eiddo ffenestr dormer yn y to cefn, yn ogystal â ffenestr llawr cyntaf yn y talcen cefn; fodd bynnag mae'r rhain wedi'u gosod ychydig i ffwrdd o'r eiddo cyfagos. Er y byddai modd gweld gardd yr eiddo cyfagos o'r ffenestri llawr uchaf hyn, mi fyddai hynny'n naturiol ar ystad dai, ac ni ystyrir y byddai i'r fath raddau fel y byddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar amwynder yr eiddo cyfagos. Bydd yr annedd arfaethedig yn rhif 17 yn ddigon pell i ffwrdd, ac mae hefyd wedi'i ongli ychydig i ffwrdd o'r de, ac felly ni fydd yn cael effaith andwyol ar amwynder rhif 15.

Yn nhermau amwynder y datblygiad arfaethedig, ni fyddai unrhyw effaith andwyol yn nhermau cysgodi, ac ni fyddent yn weledol ormesol chwaith oherwydd y ffordd mae'r anheddau wedi'u gosod o fewn y plot. Hefyd does dim ffenestri'n edrych dros ei gilydd. Nid oes gan yr annedd ym mhlot 16 falconi llawr uchaf yn y cefn, ac oherwydd y ffordd mae'r anheddau wedi'u gosod, ni fyddai chwaith yn golygu bod modd edrych dros yr ardd ym mhlot 17. Mae'r balconi llawr uchaf yng nghefn yr annedd ym mhlot 17 ar ychydig o ongl i ffwrdd o blot 16, yn wynebu'r gorllewin. Mae'r balconi hefyd wedi'i osod yn ôl yn nhalcen yr annedd sy'n golygu ei fod yn cael llai fyth o effaith ar blot 16. O ganlyniad, ni ystyrir ei fod yn golygu bod plot 16 yn colli unrhyw breifatrwydd.

Nodir hefyd nad yw'r hawl i olygfa'n ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Ni ystyrir felly bod y datblygiad arfaethedig yn gwneud unrhyw niwed sylweddol i amwynder y preswylwyr cyfagos, ac mae'r anheddau eu hunain hefyd yn cynnig lefel amwynder derbynol ar gyfer preswylwyr y dyfodol. Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn dderbynol yn ôl Polisi DM06, maen prawf 7 y CDLI.

### Priffyrdd

Bydd y cynnig yn defnyddio'r fynedfa bresennol i'r ystad, a darperir lle parcio digonol o fewn y plot. Nid yw'r awdurdod priffyrdd lleol wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, yn unol ag amodau a argymhellir.

### Draenio Tir

Ceir gwared â charthffosiaeth fudr drwy'r brif garthffos ac nid yw Dŵr Cymru wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad, yn unol ag amodau.

